Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trefniadau Craffu

Cyngor Dinas Casnewydd

Hydref 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17 (2) (d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.



### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos, ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech fwy o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, yna:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- Anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad 4
Ein canfyddiadau 5
Argymhellion 10
Atodiadau 11
1 Ynglŷn â'n gwaith 12

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi gwaith craffu effeithiol. Fe wnaethom hefyd ystyried y cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad yn 2018, Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – Cyngor Dinas Casnewydd.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae craffu effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Gall craffu ddarparu rhwystrau a gwrthbwysau i wneuthurwyr penderfyniadau, gan sicrhau bod gwneud penderfyniadau yn dryloyw, ac yn helpu i wella gwasanaethau'r Cyngor.

3 Hefyd, gall fod gan graffu rhan bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at ddatblygu polisi, monitro perfformiad a helpu i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ddarganfod

4 Ar y cyfan, fe wnaethom ganfod bod trefniadau craffu'r Cyngor yn gweithio'n dda, gyda phosibilrwydd i'w datblygu ymhellach mewn rhai meysydd allweddol.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

5 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i'r Cyngor. Maen nhw'n ymwneud â

- gwella ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu,

- meddwl am wahanol ffyrdd o gyflwyno craffu, y tu hwnt i'r dull pwyllgor traddodiadol, a
- gwella sut mae'r Cyngor yn mesur effaith gweithgarwch craffu.

# Ein canfyddiadau

## Rolau a chyfrifoldebau

### Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir a'u deall

6 Mae gan bwyllgorau craffu gylch gwaith clir y mae aelodau a swyddogion yn ei ddeall yn gyffredinol gan. Dangosodd aelodau a swyddogion hefyd ddealltwriaeth glir ar y cyd o rôl a diben craffu.

7 Mae presenoldeb Aelodau'r Cabinet mewn cyfarfodydd pwyllgor craffu a chymryd rhan ynddynt yn amrywio. Mae aelodau'r cabinet weithiau'n bresennol i gyflwyno adroddiadau ac ateb cwestiynau. Gwnaethom hefyd ganfod tystiolaeth bod Aelodau'r Cabinet yn gwerthfawrogi craffu fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Clywsom hefyd sawl enghraifft o weithgarwch craffu sy'n gwella gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, pan nad yw aelodau'r Cabinet yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu ar gyfer eitemau perthnasol, mae'n anodd i bwyllgorau eu dal i gyfrif.

8 Gall cael dealltwriaeth glir ar y cyd o rôl craffu helpu i sicrhau bod pwyllgorau'n canolbwyntio ar y pynciau cywir, yn gofyn y cwestiynau cywir, ac yn dod at argymhellion ar sail tystiolaeth dda.

# Cefnogaeth i bwyllgorau craffu

## Mae trefniadau i gefnogi pwyllgorau craffu yn effeithiol, er nad yw'r hyfforddiant wedi'i werthuso

9 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar graffu i aelodau a swyddogion, gan gynnwys yn benodol ar gyfer Cadeiryddion craffu. Roedd yr aelodau yn gadarnhaol am yr hyfforddiant hwn. Roedden nhw'n teimlo ei fod wedi arwain at welliannau, er enghraifft yn ansawdd cwestiynau, a bod hyn yn dangos bod yr hyfforddiant yn effeithiol. Mae cyfarfodydd pwyllgor yn gyffredinol yn cael eu cynnal yn dda. Mae cwestiynau'r aelodau yn gyffredinol yn berthnasol i bynciau sy'n cael eu hystyried ac yn cynnig her briodol.

10 Nid yw'r hyfforddiant sy’n cael ei ddarparu wedi'i werthuso. Gallai gwerthuso hyfforddiant helpu i wella ansawdd craffu ymhellach.

11 Mae Cadeiryddion Craffu hefyd yn cael eu cefnogi gan gynghorwyr craffu a swyddogion gwasanaethau democrataidd. Fe wnaethom glywed adborth cadarnhaol gan aelodau ar y gefnogaeth hon.

12 Mae'r wybodaeth sy’n cael ei darparu i bwyllgorau craffu o ansawdd da yn gyffredinol. Mae cynghorwyr craffu yn darparu adroddiad cryno ar gyfer pob eitem agenda, ynghyd ag adroddiadau mwy manwl gan swyddogion. Mae adroddiadau cryno yn crynhoi'r wybodaeth sy’n cael ei darparu, yn awgrymu llwybrau ymchwilio allweddol ac yn esbonio beth y gofynnir i'r pwyllgor ei wneud. Mae aelodau hefyd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol, neu iddi gael ei chyflwyno mewn fformat gwahanol, os oes ei hangen arnynt.

13 Mae'r gefnogaeth sy’n cael ei darparu i aelodau yn helpu i sicrhau bod rôl a diben craffu yn glir ar gyfer pob eitem agenda, a bod gan aelodau fynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae hyn yn helpu pwyllgorau craffu i ddeall eu rôl a chanolbwyntio eu cwestiynu.

# Rhaglenni gwaith y pwyllgor craffu

## Mae rhaglenni gwaith craffu wedi'u trefnu'n dda, gyda'r posibilrwydd o gynyddu cynnwys aelodau a rhoi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio

14 Mae pwyllgorau craffu, blaenraglenni gwaith y Cabinet a'r Cyngor wedi'u cydlynu'n dda. Mae hyn yn golygu y gall pwyllgorau craffu lywio datblygu polisi mewn modd amserol.

15 Er bod rhaglenni gwaith craffu wedi'u trefnu'n dda, maent yn canolbwyntio ar adroddiadau pwyllgorau a chyfarfodydd pwyllgorau. Nid yw pwyllgorau craffu yn ystyried y ffordd orau o graffu ar bob pwnc yn rheolaidd. Trwy beidio ag ystyried gwahanol ffyrdd o weithio, gall pwyllgorau craffu fod yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithiolrwydd. Roedd pwysigrwydd blaenoriaethu a chynllunio gweithgarwch craffu er mwyn gwella ei effaith yn thema a amlygwyd gennym hefyd ym ‘Mhapur Trafod: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol'’ yr Archwilydd Cyffredinol yn 2019.

16 Mae gan y Cyngor ffurflen er mwyn i aelodau ofyn bod eitem yn cael ei ychwanegu at y rhaglen waith, er yn anaml y defnyddir y ffurflen hon. Mae blaenraglenni gwaith y pwyllgor yn eitem sefydlog ym mhob cyfarfod. Gall aelodau awgrymu eitemau i'w hychwanegu at y rhaglen waith. Mae ein sylwadau o rai cyfarfodydd pwyllgor yn awgrymu bod aelodau weithiau'n gwneud hyn, ond nid yn aml.

17 Mae llawer o eitemau ar flaenraglenni gwaith y pwyllgor yn eitemau rheolaidd, megis adroddiadau perfformiad a chynigion cyllideb neu bolisi i'w hadolygu neu’u mabwysiadu gan y Cabinet. Gall fod yn ddefnyddiol gwneud rhaglenni gwaith yn gydnaws â'r Cabinet, ond mae hefyd yn bwysig bod gan aelodau craffu berchnogaeth dros rhaglenni gwaith craffu. Trwy beidio â chymryd perchnogaeth o beth y byddant yn craffu arno, a sut, mae risg na fydd aelodau yn nodi pynciau neu ddulliau lle gallent gael yr effaith fwyaf.

# Ymgysylltu â’r cyhoedd wrth graffu

## Mae ymgysylltu â’r cyhoedd wrth graffu yn gyfyngedig ond mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau i ymdrin â hyn

18 Gall ymgysylltu yn effeithiol â’r cyhoedd wrth wneud threfniadau craffu helpu pwyllgorau craffu i nodi materion sy'n bwysig i gymunedau lleol. Gall hefyd eu helpu i ddeall barn cymunedau lleol ac argymell datrysiadau posibl.

19 Nid oes llawer o ymgysylltu â’r cyhoeddus yng nghyfarfodydd pwyllgor craffu'r Cyngor. Mae gwefan y Cyngor ar gyfer pob pwyllgor craffu yn dweud bod croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd, ond nid yw'n esbonio os ydynt yn gallu cymryd rhan neu sut i wneud hynny.

20 Mae pwyllgorau craffu yn defnyddio prosesau ymgysylltu â’r cyhoedd ehangach y Cyngor i lywio eu gwaith. Er enghraifft, canlyniadau ymgynghoriadau a gynhelir gan y Cyngor ar ei wasanaethau neu bolisïau. Ond mae'r Cyngor yn cydnabod y gall wneud mwy i annog cynnwys y cyhoedd yn ei drefniadau craffu.

21 Mae gweithgarwch craffu'r Cyngor yn digwydd yn bennaf trwy gyfarfodydd pwyllgor. Mae llawer o gynghorau yn ei chael hi'n anodd annog aelodau o'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a chymryd rhan ynddynt. Trwy ei waith arfaethedig i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd mewn gweithgarwch craffu, gallai'r Cyngor ystyried a fyddai gwahanol ddulliau o weithgarwch craffu yn ddefnyddiol.

22 Gwnaethom sylwadau tebyg ar drefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein hadroddiad 2019, ond nid yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.[1]

---

[1] Archwilio Cymru, Trosolwg a Chraffu – Addas i’r Dyfodol? – Cyngor Dinas Casnewydd, Awst 2018

23 Mae'r Cyngor yn bwriadu adnewyddu ei strategaeth Ymgysylltu a'r Cyhoedd yn 2026 ac mae'n bwriadu cynnal hunanwerthusiad craffu yn 2025-26. Rydym yn deall y bydd ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn.

## Gwerthuso effeithiolrwydd craffu

### Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau craffu ond yn cydnabod bod angen iddo ymdrin â hyn

24 Nid yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau craffu. I raddau helaeth, mae adroddiad craffu blynyddol y Cyngor yn disgrifio gweithgarwch yn hytrach na chanlyniadau. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mwy o wybodaeth ansoddol, fel astudiaethau achos, ac mae'n bwriadu gwneud newidiadau eraill yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnal hunanwerthusiad craffu yn 2025-26.

25 Er nad yw'n gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau craffu yn rheolaidd, mae'r Cyngor yn ceisio'u gwella. Er enghraifft, newidiadau i fformat ei adroddiad blynyddol craffu, a'i hunanwerthusiad craffu arfaethedig.

26 Mae'r Cyngor hefyd wedi gwella sut mae'n monitro canlyniadau gweithgarwch craffu. Ym mhob cyfarfod pwyllgor, mae aelodau'n cael gwybod am gynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch craffu. Mae hyn yn helpu aelodau craffu i ddeall a ydynt wedi cyflawni'u canlyniadau arfaethedig.

# Argymhellion

**A1 Ymgysylltu â'r cyhoedd**

**1.1** Dylai'r Cyngor archwilio cyfleoedd i gynyddu ymgysylltu â’r cyhoedd mewn gweithgarwch craffu. (Paragraffau 18 i 22)

**A2 Ffyrdd eraill o weithio**

**2.1** Dylai'r Cyngor gefnogi pwyllgorau craffu i ystyried yn rheolaidd y dull gorau ar gyfer craffu ar bob pwnc. (Paragraff 15)

**A3 Gwerthuso effaith**

**3.1** Dylai'r Cyngor werthuso effeithiolrwydd trefniadau craffu yn rheolaidd. (Paragraff 24)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Adolygodd yr archwiliad drefniadau'r Cyngor i gefnogi ei swyddogaeth graffu. Edrychodd hefyd ar gynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad 2018.

Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys swyddogaethau adolygu eraill y Cyngor, fel y rhai y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymgymryd â nhw.

Gwnaethom gynnal yr archwiliad yn ystod mis Awst a mis Medi 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Bwriad yr archwiliad oedd ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi nodi'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau i'r rhai sy'n ymwneud â'i drefniadau cymryd trosolwg a chraffu?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gefnogi aelodau a swyddogion ei bwyllgor craffu?
- A yw'r swyddogaeth graffu yn blaenoriaethu ac yn cynllunio ei gweithgareddau i gyflawni'r effaith a fwriadwyd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i hwyluso ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei drefniadau craffu?
- A yw trefniadau craffu'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i alluogi swyddogion craffu i gyflawni eu rôl a chyflawni'r effaith a fwriadwyd?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd craffu?

## Meini prawf

Er mwyn ein helpu ni i asesu effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor, rydym wedi datblygu meini prawf yn seiliedig ar ‘Bapur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu yn ‘Barod at y Dyfodol’’ yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhestr wirio Chwe cham i helpu i wneud craffu yn addas at y dyfodol fel dogfennau cyfeirio.

# Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau, er enghraifft, papurau pwyllgor, canllawiau i aelodau, a deunyddiau hyfforddi;
- arsylwadau o sampl o gyfarfodydd y pwyllgor craffu; a
- cyfweliadau â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnyddio adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English